

PRIFFYRDD, CYMRU

2015 RHIF. 32

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW ODDI AR STRYD BUTE, CALLAGHAN SQUARE, CAERDYDD) 2015

Gwnaed 5 Hydref 2015

Yn dod i rym 6 Hydref 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Callaghan Square, Caerdydd) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Callaghan Square, Caerdydd) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd o

dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 17 Tachwedd 2009 o dan y cyfeirnod 08/02716/C ac ar 8 Tachwedd 2012 o dan y cyfeirnod 12/01380/DCI ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y bwriedir cau'r rhan o'r briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatadau cynllunio, neu os caiff y caniatadau eu dirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Hydref 2015

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan betryal ei siâp o briffordd ger cornel de-orllewinol Plot EO4, Callaghan Square, Butetown oddi ar Stryd Bute yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n 23.5 o fetrau yn y man hiraf a 4 metr yn y man lletaf.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Ailddatblygu ochr ddeheuol Callaghan Square, (Plot EO4), Butetown, Caerdydd ar gyfer swyddfeydd, cyfleusterau parcio cysylltiedig a gwaith tirlunio.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PRIFFORDD DDIENW ODDI AR STRYD BUTE, CALLAGHAN SQUARE, CAERDYDD) 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Priffordd Ddienw oddi ar Stryd Bute, Callaghan Square, Caerdydd) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatadau cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os cânt eu dirymu.

Gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Caerdydd, Rheoli Datblygu ac Adeiladu, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1194348/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 6 Hydref 2015, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/2015).

Gellir cael copi brint pras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymnion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan betryal ei siâp o briffordd ger cornel de-orllewinol Plot EO4, Callaghan Square, Butetown oddi ar Stryd Bute yn Ninas a Sir Caerdydd sy'n 23.5 o fetrau yn y man hiraf a 4 metr yn y man lletaf.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Ailddatblygu ochr ddeheuol Callaghan Square, (Plot EO4), Butetown, Caerdydd ar gyfer swyddfydd, cyfleusterau parcio cysylltiedig a gwaith tirlunio yn unol â'r caniatadau cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Caerdydd ar 17 Tachwedd 2009 o dan y cyfeirnod 08/02716/C ac ar 8 Tachwedd 2012 o dan y cyfeirnod 12/01380/DCI.